CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Polisi Cymorth Digwyddiadau i Gymrodyr CDdC 2024-25

1. **Cyflwyniad**

"Digwyddiadau â chymorth" yw'r rhai y mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru (LSW) yn eu cefnogi trwy gyfrwng cyllid, hyrwyddo a chymorth gan staff. Maen nhw'n wahanol i ddigwyddiadau sydd yn cael eu harwain gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, neu'r rhai rydym yn eu creu gyda phartneriaid fel academïau/cymdeithasau eraill.

Pwrpas y rhaglen Digwyddiadau â Chymorth ydy darparu cymorth i gyflawni blaenoriaethau'r Gymdeithas, a chyfrannu at ddatblygu a hyrwyddo'r sector ymchwil. Mae hefyd yn ein galluogi i sefydlu neu ehangu partneriaethau gyda sefydliadau perthnasol trwy gefnogi eu digwyddiadau.

2. Pwy sydd yn cael gwneud cais

Dim ond Cymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru sydd yn cael cyflwyno ceisiadau ar ran sefydliad.
Mae'n rhaid i ddigwyddiadau arfaethedig gael eu cynnal neu eu trefnu gan sefydliad, busnes neu sefydliad arall - ni fyddwn yn darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau sydd yn cael eu trefnu gan unigolyn.

3. **Mathau o ddigwyddiad**

Mewn egwyddor, gall Cymdeithas Ddysgedig Cymru gefnogi unrhyw fath o ddigwyddiadau a fydd yn cyfrannu at hyrwyddo a datblygu ymchwil ac arloesi Cymru, ac sy'n bodloni gofynion y polisi hwn.

Yn ymarferol, rydym yn gobeithio cefnogi amrywiaeth eang o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, fel:

- Darlithoedd
- Cynadleddau a symposia
- Gweithdai, trafodaethau panel a digwyddiadau bord gron
- Digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, e.e. gwyliau ac arddangosfeydd
- Hyfforddiant

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn darparu cymorth ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau a allai ddigwydd ar-lein neu wyneb yn wyneb. Rydym yn annog y defnydd o lwyfannau cyfarfod ar-lein er mwyn sicrhau bod y digwyddiadau a gefnogir gan y cynllun hwn mor hygyrch i gymaint o gynulleidfaoedd â phosib, lle bo hynny'n briodol.

Bydd cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys mynychwyr o du hwnt i sefydliad/corff y trefnydd neu'r ymgeisydd yn unig. Os bydd y digwyddiad yn cynnwys

prifysgolion, yna fe ddisgwyliwn fod mwy nag un brifysgol yn cymryd rhan. Lle bo'n briodol, disgwyliwn i ddigwyddiadau fod ar gael yn eang i gyfranogwyr ac ar draws pob sector.

Rhoddir blaenoriaeth i ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar ddosbarthu ymchwil un unigolyn

4. Mathau o gymorth

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn cynnig pedwar math o gymorth. Gall ymgeiswyr wneud cais ar draws un neu fwy o'r categorïau hyn ar gyfer pob digwyddiad arfaethedig:

a) **Cyllid**. Mae gennym gyllideb ar gyfer digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar HASS a STEMM bob blwyddyn, gydag uchafswm ar gael yn flynyddol. Gall ymgeiswyr wneud cais am rhwng £250 a £1,000 fesul digwyddiad. Gellir gofyn am gyllid Cymdeithas Ddysgedig Cymru fel cyllid rhannol tuag at ddigwyddiad sydd hefyd yn derbyn arian craidd neu grant o ffynonellau eraill.
b) **Hyrwyddo**. Gallwn hyrwyddo'r holl ddigwyddiadau â chymorth trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol (fel y bo'n briodol), bwletin y Cymrodor, ein gwefan a'n cylchlythyr allanol. Rydym hefyd yn gallu rhannu recordiadau, lluniau a sgriptiau ar ôl digwyddiad lle bo hynny'n berthnasol.
c) **Cynnal digwyddiad ar-lein.** Mae gennym becyn Zoom y telir amdano ac, mewn rhai achosion, byddwn yn gallu helpu partneriaid i gynnal digwyddiadau os na allant wneud hynny eu hunain.
d) **Cymorth gan staff.** Mewn rhai achosion, byddwn yn cynnig cymorth ychwanegol ar gyfer digwyddiadau sy'n gwneud cyfraniad arbennig o gryf i'n blaenoriaethau strategol. Yn dibynnu ar yr hyn sy'n briodol ar gyfer y digwyddiad unigol, gall hyn gynnwys darparu cymorth mewn perthynas â chynllunio, staffio digwyddiadau, adrodd neu waith polisi cysylltiedig.

4. Meini prawf asesu

Mae'n rhaid i'r holl geisiadau fynd i'r afael â sut y bydd y gweithgaredd arfaethedig yn cyflawni'r meini prawf canlynol. Bydd hyn yn cael ei gasglu drwy ffurflen gais ar-lein, lle byddwn yn gofyn am ymateb byr i'r meini prawf canlynol:

- **Cenhadaeth ac Amcanion Cymdeithas Ddysgedig Cymru**– Dangos sut y bydd eich digwyddiad yn cefnogi ein cenhadaeth ac o leiaf un o'n nodau strategol
- **Hygyrchedd** – Dangos sut y bydd eich digwyddiad yn hygyrch –gwahodd, annog a chroesawu pawb (e.e. drwy gyflwyno'r pwnc yn briodol, hyrwyddo drwy sianelau amrywiol, defnyddio dulliau cyfranogol yn ystod y digwyddiad neu ofyn am ofynion mynediad fel mynediad corfforol neu adnoddau print bras)
- **Amrywiaeth** – Os fydd gan eich digwyddiad siaradwyr neu banelwyr, byddwch yn mynd ati i chwilio am ystod amrywiol o bobl (gyda'r disgwyliad fel arfer, y bydd paneli o leiaf yn gytbwys o ran rhywedd, ac yn ddarlithoedd sydd yn cael eu cyflwyno gan un person o dan gadeiryddiaeth rhywun o ryw gwahanol).
- **Effaith**– eglurwch sut y bwriadwch sicrhau y bydd y digwyddiad yn cael yr effaith gryfaf bosib a sut y byddwch yn mesur yr effaith honno ar eich cynulleidfa, partneriaid neu gymuned leol (arolygon, ffurflenni adborth, data demograffeg ac ati)
- **Cyd-destun Cymreig** - Dylai eich digwyddiad gyfrannu'n amlwg at hyrwyddo a datblygu cymuned ymchwil ac arloesi Cymru.

Nid ydy'r canlynol yn gymwys i dderbyn cymorth

- Digwyddiadau sy'n ymwneud ag un sefydliad, neu sefydliad addysg uwch unigol.
- Digwyddiadau neu leoliadau gwleidyddol
- Digwyddiadau neu leoliadau y gellir eu hystyried sy'n hyrwyddo athrawiaeth grefyddol
- Digwyddiadau neu leoliadau y gellir eu hystyried yn dramgwyddus neu'n ddifenwol ym marn Cymdeithas Ddysgedig Cymru.
- Cyllid ôl-weithredol ar gyfer digwyddiadau sydd eisoes wedi digwydd
- Costau craidd neu ystadau/costau anuniongyrchol
- Prynu alcohol ar gyfer digwyddiadau
- Offer swyddfa a gliniaduron neu unrhyw offer nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chynnal y digwyddiad
- Ffioedd neu *honoraria* i bobl sydd eisoes mewn cyflogaeth â thâl i gyflawni gweithgareddau lle byddai'n rhesymol cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath fel rhan o'u dyletswyddau arferol
- Costau adeiladu neu seilwaith
- Mynychu digwyddiadau wedi'u trefnu
- Treuliau sydd yn cael eu hachosi i gyflwyno'r cais
- Cyrsiau academaidd fel graddau Meistr neu PhD, a ffioedd dysgu eraill.
- Cynigion sy'n gwrthdaro â pholisïau Cymdeithas Ddysgedig Cymru, gwrthrychau elusennol neu gyfraith elusennau

6. Cyfres o ddigwyddiadau

- Gall rhai ceisiadau fod yn gysylltiedig â gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n flynyddol neu dros nifer o flynyddoedd.
- Mae'r digwyddiadau hyn yn ddarostyngedig i'r un meini prawf sydd yn cael eu rhestru yn yr holl bwyntiau uchod – a bydd yn rhaid iddynt ddangos hefyd, pam mae'r digwyddiad hwn yn gofyn am gyllid / cefnogaeth barhaus.
- Bydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn nodi'n glir yr amodau y cymeradwyir unrhyw 'gyfres o ddigwyddiadau' oddi tanynt.
- Dim ond o fewn 12 mis ar ôl cyflwyno'r cais y telir arian allan ar gyfer y digwyddiadau sydd yn cael eu cynnal. Mae angen cyflwyno cais a chael cymeradwyaeth pellach ar gyfer digwyddiadau dilynol.
- Bydd cytundeb ffurfiol yn cael ei ddarparu rhwng Cymdeithas Ddysgedig Cymru a'r ymgeiswyr llwyddiannus, sy'n amlinellu'r broses hon.

7. Prosesu ceisiadau

a) **Cyflwyno a derbyn cais**

- Bydd rhaglen Digwyddiadau â Chymorth Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn derbyn ceisiadau yn erbyn dyddiad cau o bob 4 mis. Bydd y dyddiadau hyn yn cael eu cyfleu'n glir trwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan Cymdeithas Ddysgedig Cymru.
- Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn hanner nos ar y dyddiad cau a restrir.
- Rhaid cyflwyno ceisiadau drwy Ffurflen Digwyddiadau â Chymorth Cymdeithas Ddysgedig Cymru, sydd ar wefan Cymdeithas Ddysgedig Cymru.
- Ar ôl derbyn cais, bydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn cydnabod y cais, ac yn cadarnhau erbyn pa ddyddiad y bydd penderfyniad yn cael ei wneud. Ein nod ydy rhoi gwybod beth ydy canlyniad y penderfyniad i bob ymgeisydd o fewn 4 wythnos o'r dyddiad cau.

- Rhaid cwblhau'r holl gwestiynau perthnasol ar y ffurflenni cais yn llawn er mwyn iddynt gael eu hystyried am gymorth.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol na chytuno i drefnu digwyddiadau yn seiliedig ar gyllid neu gymorth Cymdeithas Ddysgedig Cymru cyn iddynt gael eu cyfathrebu'n ffurfiol. Ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw gostau a achosir cyn bod cytundeb yn cael ei gyrraedd.

b) **Ystyried cais**

- Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu a'u sgorio gan staff Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn seiliedig ar yr ymatebion i gwestiynau'r cais.
- Bydd argymhellion i'w cymeradwyo neu eu gwrthod yn cael eu gwneud i gylch sy'n cylchdroi o Gymrodyr Pwyllgor Dibenion Cyffredinol y cytunwyd arnynt i'w cymeradwyo.
- Mae ceisiadau yn cael eu sgorio ar sail y meini prawf canlynol:
  - Cenhadaeth ac Amcanion Cymdeithas Ddysgedig Cymru
  - Hygyrchedd
  - Amrywiaeth
  - Effaith
  - Cyd-destun Cymreig

- Mae gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru'r disgresiwn i roi cyllid llawn neu gyllid rhannol i ymgeiswyr sy'n cael eu hystyried yn llwyddiannus. Efallai y bydd mathau eraill o gymorth yn dal i gael eu cynnig os na roddir cyllid.
- Mewn amgylchiadau eithriadol, os gwneir cais am fwy na £1000, bydd y cais hwn yn cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Gwaith gydag argymhelliad. Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cais mewn egwyddor, yna byddant yn ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Cyllid i ystyried unrhyw newid arfaethedig i'r gyllideb flynyddol. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cadw'r hawl i ymestyn y dyddiad cau er mwyn ceisio cyrraedd penderfyniad. Rydym yn argymell eich bod chi'n siarad gyda staff Cymdeithas Ddysgedig Cymru i drafod cynnig o'r fath cyn cyflwyno cais.

c) Rhoi gwybod i ymgeisydd

- Yr amser targed ar gyfer rhoi gwybod i ymgeisydd o ganlyniad ei gais yw 4 wythnos o'r dyddiad cau, ond gellir ymestyn hyn os oes angen trafodaeth fwy sylweddol. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod os ydy'r dyddiad cau yn mynd i fod yn fwy na 4 wythnos.
- Os mai'r penderfyniad ydy darparu cymorth ar gyfer y digwyddiad, bydd yr ymgeisydd yn derbyn e-bost safonol yn eu hysbysu o'r canlyniad, yn amlinellu gofynion y grant, ac yn darparu deunyddiau hyrwyddo perthnasol Cymdeithas Ddysgedig Cymru.
- Os mai'r penderfyniad ydy peidio â chefnogi'r digwyddiad, bydd yr ymgeisydd yn derbyn e-bost yn rhoi manylion o'r canlyniad.

8. Derbyn y cynnig am gymorth

- Mae’n rhaid i ymgeiswyr ymateb i unrhyw gynnig am gymorth drwy dderbyn neu wrthod yn ysgrifenedig o fewn pythefnos i dderbyn y cynnig.
- Os na fydd eich digwyddiad yn gallu digwydd rhagor, rhaid i chi roi gwybod i Gymdeithas Ddysgedig Cymru o fewn pythefnos ar ôl i'r penderfyniad hwn gael ei wneud, a dychwelyd unrhyw arian a dalwyd o fewn 4 wythnos ar ôl i’r penderfyniad hwn gael ei wneud.

9. Cyfrifoldebau ymgeiswyr llwyddiannus

- Mae’n rhaid i chi gynnal eich digwyddiad o fewn 12 mis ar ôl derbyn cadarnhad o gefnogaeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru.
- Dylech nodi eich bod chi wedi cael cefnogaeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru mewn unrhyw ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a hefyd yn y digwyddiad (ee/gyda logos a geiriau o ddiolch ar sleidiau neu yn sylwadau agoriadol y cadeirydd)
- Darparu cynnwys i'r gymdeithas y gallwn ei ddefnyddio i helpu i hyrwyddo'r digwyddiad (lle bo hynny'n berthnasol) o leiaf 6 wythnos cyn y digwyddiad
- Cydymffurfio â safonau'r Gymraeg eich sefydliad.
- Gwahodd o leiaf un cynrychiolydd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru i'r digwyddiad – gyda'r disgwyliad y gall ein Llywydd neu Brif Swyddog Gweithredol wrthod y gwahoddiad hwn yn gyntaf
- Rhoi cynnwys i'r Gymdeithas y gallwn ei ddefnyddio ar ôl y digwyddiad (e.e. lluniau, cynnwys cyfryngau cymdeithasol, adroddiadau, recordiadau) gyda chaniatâd priodol i ni ei rannu a’i hyrwyddo
- Darparu data effaith perthnasol ar ôl y digwyddiad
- Rhaid derbyn pob hawliad o fewn tri mis ar ôl dyddiad y digwyddiad, er mwyn sicrhau y telir y grant. Ni fydd unrhyw hawliadau sydd yn cael eu gwneud ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu talu.
- Os ydych wedi cael cyllid tuag at ariannu eich digwyddiad, rydym yn disgwyl cael ein hanfonebu o fewn tri mis o ddyddiad y digwyddiad. Yn ogystal, byddwch cystal â darparu diweddariad byr ar y digwyddiad a rhannu lluniau/data lle bo’n berthnasol. Os na wariwyd cymaint ag a ddisgwyliwyd ar y gweithgaredd, yna disgwyliwn y byddwch yn ein hanfonebu’n unol â hynny.
- Os nad oes gan eich sefydliad y cyllid ar gael i’n hanfonebu ni’n ôl-weithredol, fe wnawn weithio â chi i gytuno ar amserlen amgen ar gyfer talu.